cbac
wjec

**TAG UWCH**

1000N60-1

S19-1000N60-1

# CYMRAEG: IAITH GYNTAF – U2 uned 6
## Gwerthfawrogi Llenyddiaeth a'r Gymraeg mewn Cyd-destun (Papur Ysgrifenedig)

DYDD LLUN, 10 MEHEFIN 2019 – PRYNHAWN

2 awr

1000N601
01

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir ar wahân.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt, dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.

Dylid defnyddio termau beirniadaeth lenyddol a dyfyniadau.

Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

Dylech dreulio **1 AWR** ar Adran A ac **1 AWR** ar Adran B.

Cofiwch dreulio amser digonol yn cynllunio eich atebion.

**Ni chaniateir defnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.**

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn.

Atgoffir chi mai papur synoptig yw hwn ac felly bydd yn profi gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau a ddatblygwyd wrth astudio'r pwnc.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN A – GWERTHFAWROGI LLENYDDIAETH

**1.** Darllenwch yn ofalus y darn isod ac ysgrifennch draethawd yn dadansoddi cynnwys ac arddull y darn. Wrth ddadansoddi dylech gofio:

- defnyddio **termau beirniadaeth lenyddol** a **dyfyniadau**
- cyfeirio at **weithiau llenyddol** sydd yn ymdrin â **thema** neu **themâu** tebyg gan drafod a yw'r ymdriniaeth yn debyg neu'n wahanol.

*(Gallwch gyfeirio at weithiau Cymraeg perthnasol a ddarllenwyd neu a welwyd yn ogystal â thestunau a astudiwyd gennych.)* [40]

Wrth reswm pawb, Marian, ac nid Marsipan, oedd ei henw iawn. Ond Marsipan fuodd hi ar lafar gwlad ers cyn i goed afon Braw golli'u dail am y tro cyntaf un.

Roedd hi'n ddynes solet. Gwraig yn ei chwedegau cynnar: y teip y byddai rhywun yn ei thrystio hefo bywyd plentyn bach, ond byth rownd potel jin mewn cegin gefn. Yn smocio fel y *tŵrs ym Mhort Talbot, ac roedd o'n dweud ar fagiau'i chroen ac yng nghrygni'i llais.

Heddiw, roedd Marsipan yn enw addas tu hwnt, gan ei bod hi'n frown fel cneuan almond, un wedi'i chrasu'n grimp. Handbag lledr gwyn ganddi; côt ffyr fryniog am ei hysgwyddau. Roedd hi newydd ddod yn ei hôl o'r Ynysoedd Dedwydd a thipyn o sioc i'r system oedd hyn wrth i biglaw Tachwedd dasgu o'r lôn rownd ei bŵts a stwmps ei ffags.

'Ma'r bys ma'n slo, del,' meddai hi wrth y dyn oedd wrth ei hochor. 'Lle mae o da?'

Doedd ond angen edrych ar wyneb hwnnw i ddeall nad oedd y rhain yn nabod ei gilydd o gwbwl, a go brin eu bod nhw wedi cyfarfod erioed.

'Fyddan ni'di fferru'n gorn, myn uffarn i,' meddai hi wedyn. 'Gen i gnebrwng i fynd iddo fo, myn coblyn.'

(Wrth gwrs, y peth doniol am y darn hwn o'r stori ydy hyn: doedd y bysys i Abermandraw byth yn brydlon, yn union fel na fydd llif afon Braw byth yn hwyr. Roedd Marsipan Morris fel petai hi wedi anghofio hynny ar ôl ei hwythnos yn torheulo yn Tenerife.)

Stretsiodd Marsipan ei gwddf i graffu i lawr y lôn. Roedd hi'n dechrau difaru dod i Gaer-Coll i wneud ei gwallt o gwbwl. Mi ddylai fod wedi cael *rollers* yn y tŷ, meddyliodd, cynhebrwng neu beidio. Ac roedd amser yn mynd yn brin. Ar hyn, dyma lorri sment yn chwyrnellu heibio a dŵr budur y tarmac yn gawod ar ei sgert.

'O, sbia'r neno'r tad,' meddai hi wrth sychu honno hefo'i llaw. Rowlio'i lygaid wnaeth y dyn diarth, a gwenu gwên oedd hanner ffordd rhwng ymddiheuriad a thosturi.

'Fasa hyn ddim 'di digwydd yn Los Cristianos yn saff ichdi,' meddai hi wedyn, a hawdd oedd gweld pam. Roedden nhw mewn tref yng ngogledd-orllewin Ewrop i gychwyn. Ond at hynny, mewn arhosfan fysys ar briffordd brysur, priffordd ac arni fawr fwy na siopau'n gwerthu *kebabs*, alcohol ac e-sigaréts a'r glaw'n pledu'r haearn gwyrdd oedd i fod i'w cysgodi a hwnnw'n dyllau ac yn rhwd i gyd, a'r traffig yn un pandemoniwm o deiars a weipars a dŵr, roedd cyfnod Marsipan Morris ar y traeth ar lannau'r Iwerydd yn teimlo mor bell yn ôl ag oes y punt-am-baced-o-ffags. A hynny, o bosib, y tro ynys-ddedwyddaf, olaf un.

'Lle braf, sti,' meddai hi, ac amneidiodd y dyn i geisio dangos nad oedd o'n amau llai.

Taniodd Marsipan Morris sigarét arall i dawelu'i nerfau. Roedd pethau rŵan yn mynd yn dynn go iawn. Dechreuodd wneud rhestr yn ei phen: y crisps wedi'u prynu, y brechdanau past samwn wedi'u lapio, ond cyn iddi allu symud yn ei blaen ymhellach, dyma fo'r bws yn ymddangos rownd y gongol.

Bu bron iddi dagu wedyn wrth geisio traflyncu cymaint o'r mwg ag y gallai cyn gorfod dringo'r step i ddangos ei phàs. Eisteddodd, ac yn anffodus, eisteddodd y dieithryn wrth ei hochor.

'O leia dan ni arno fo rŵan, del,' meddai hi. A gwnaeth y gŵr ryw ystum rhyddhad hefo'i fochau, cyn crychu'i drwyn hefo gwg.

Erbyn hyn roedd cysgodion llwyd y canolfannau manwerthu yn llenwi'r ffenestri cymylog: yr archfarchnadoedd a'r warysau DIY, y maci-dis a'r *drive throughs.* A'r glaw yn dal i ffustio'r to.

'Ti'n mynd yn bell del?' holodd hi mewn un ymgais olaf i weld oedd gan hwn lais.

*'Don't speak it love,'* meddai hwnnw, a dyna ddiwedd ar hynny.

Cyn hir roedden nhw allan yn y berfeddwlad, yn ymlusgo o bentref i bentref ar hyd lonydd gwyntog cefn gwlad. Gadawodd y dyn diarth y bws yn un o'r pentrefi. Ac am ryw reswm rhyfedd, dyna'n union pryd dechreuodd Marispan Morris deimlo'n unig ac yn emosiynol go iawn.

A meddyliau unig ac emosiynol fel hyn roedd hi'n eu meddwl: onid oedd yna rywbeth, wrth deithio mewn cerbyd llaith a'r ffenestri'n stêm, a hithau'n oer y tu allan, ar fore Mawrth hyll o Dachwedd, ar fws o Gaer-coll i Abermandraw, a'r glaw fel dagrau ar y ffenest, a weipars y bws yn *nadu, a'r bws yn ysgwyd yn ei flaen ac yn ôl ac i lawr ac i fyny, a hithau'n methu gweld allan yn iawn, dim ond cysgodion coed a cheir yn pasio, a'r weipars cwynfanllyd yn cadw sŵn, a phlentyn yn dechrau crio mewn pram o'i blaen, a'r bws yn stopio i ollwng hen wreigan i drugaredd y gwynt a honno'n methu cerdded heb ei ffon, a'r glaw'n dal i bwnio'r ffenest a'r bws yn ailgychwyn ysgytian yn ei flaen – onid oedd yna rywbeth am y byd, am y bore Mawrth oer hwnnw o Dachwedd ar y bws, oedd yn hollol dorcalonnus a di-ddallt o drist?

1000N601
03

Daeth Marsipan Morris i'r casgliad bod. A heb syndod yn y byd, dyma ddechrau arswydo at yr hyn fyddai gan yr arbenigwr i'w ddweud wrthi ddydd Gwener am y cysgod ar ei hysgyfaint a'r lwmp ar ei brest. Roedd tridiau i ffwrdd yn teimlo fel eiliadau ac fel canrifoedd ar yr un pryd.

Ond dydd Mawrth oedd rŵan. Ac mewn ffordd wyrdroëdig, diolchodd Marispan Morris fod ganddi angladd i'w gyrchu a bwffe i'w baratoi; roedd y tŷ cyngor yna wedi dechrau'i dychryn hi'n ddiweddar. Y peth cyntaf: coctel sosejes a sosej rôls yn syth i'r popty, cyn ffonio tacsi i fynd â phopeth draw i'r Windsor Hotel erbyn un.

Dechreuodd y bws ddilyn llwybr afon Braw i lawr o'r bryniau, honno'n edrych yn fygythiol yn nhywyllwch llwyd y bore. Crynodd Marsipan wrth weld y coed yn y pellter, y glannau'n adrodd eu stori'u hunain.

*twŵrs – simneiau
*nadu – gwneud sŵn

## ADRAN B – Y GYMRAEG MEWN CYD-DESTUN

**2.** Rydych wedi cael eich dewis i roi anerchiad gerbron Aelodau'r Cynulliad. Lluniwch anerchiad ar y testun ***'Mae'r adnodd band eang (band llydan) cyflym yn gwbl allweddol i ffyniant economi, bywyd cymdeithasol a dyfodol Cymru.'***

Dylech seilio eich anerchiad ar yr wybodaeth isod gan flaenoriaethu a dewis a dethol gwybodaeth addas. Gallwch hefyd dynnu ar eich profiadau/gwybodaeth bersonol pan fo'n briodol. Dylech ysgrifennu o leiaf un ochr tudalen. [40]

**Pam dewis band eang cyflym iawn?**

Gyda band eang cyflym iawn, byddwch yn gallu cyfathrebu a rhannu'r pethau sy'n bwysig i chi'n gynt ac mewn ffordd fwy dibynadwy. P'un a ydych yn syrffio'r we, sgwrsio â'r teulu ym mhen draw'r byd neu dderbyn adloniant, mae hi gymaint gwell os oes gennych gysylltiad cyflym iawn â'r rhyngrwyd a chyswllt band eang.

**Ffeithiau ac Ystadegau**

- cysylltiad signal 2G - 93% o ardaloedd trefol, 58% - Cymru wledig
- 19% o eiddo yng nghefn gwlad Cymru yn methu â derbyn cyflymder dros 10mb yr eiliad, 1% o eiddo cyffelyb mewn ardaloedd trefol
- nid oes darpariaeth 4G gan unrhyw gwmni o gwbl ar gyfer 9% o arwyneb Cymru
- Cymru yn arafach na gweddill y Deyrnas Unedig a'r DU yw'r 31ain cyflymaf yn y byd gydag 19 gwlad Ewropeaidd o'i blaen

**Manteision band eang cyflym iawn**

- gallu defnyddio pob math o ddyfeisiau gwahanol yn y cartref yr un pryd
- nifer o wasanaethau ar gael e.e. bancio ar-lein
- gwerth y cartref yn cynyddu o ran ei bris
- galluogi pobl i weithio gartref
- band eang arferol yn gallu bod yn annibynadwy ac nid yw'n llawer rhatach
- angenrheidiol i lwyddiant busnesau – nifer o gynghorau wedi cynnig hyfforddiant digidol am ddim i fusnesau

**Band Eang Cyflym Iawn**
Cyflym, diolch i ni. Gwych, diolch i chi.

**Anawsterau:**

- diffyg buddsoddiad wrth ystyried yr holl waith sydd angen ei gyflawni
- problemau ymarferol gosod y rhwydwaith, e.e. caniatâd tirfeddianwyr
- arafwch cwblhau'r gwaith
- diffyg dealltwriaeth y cyhoedd a diffyg gwybodaeth yn arwain at arafwch y cyhoedd yn cofrestru i dderbyn y gwasanaeth
- daearyddiaeth a dosbarthiad poblogaeth Cymru

**Cynllun Allwedd Band Eang Cymru**

Gall preswylwyr sy'n methu â chysylltu â chyflymder band eang cyflym iawn wneud cais am grant Allwedd Band Eang Cymru gan Lywodraeth Cymru. Mae'r grant ar gael i unigolion a busnesau.

**Trafferth band eang i nifer o ysgolion mewn awdurdodau lleol**

- cyflymdra araf yn achosi problemau wrth geisio defnyddio adnoddau addysgu ar-lein
- ysgolion yn methu â chwblhau gofynion y fframwaith digidol
- disgyblion ysgol dan anfantais wrth gwblhau gwaith cartref

***Dyfyniad gan Rhun ap Iorwerth AC:***

*'O addysg i delefeddygaeth, o fusnes i hamdden, mae ein hangen am gysylltiad band eang yn rhan annatod o'n bywydau bob dydd, ac ni ddylai'r ffaith ein bod yn wledig fod yn rheswm dros beidio â chael y cysylltiad hwn.'*

***NFU Cymru***

*'Mae angen gwneud rhagor i sicrhau nad yw ffermwyr yn "ddinasyddion eilradd" wrth gael mynediad i gysylltu â'r we cyflym.'*

***Padl fyrddiwr yn manteisio ar gysylltiad band eang cyflym iawn***

*'Mae gwasanaeth band eang cyflym iawn ar gael ym mhob man yn Llundain, ac ar ôl dod yn ôl i Gymru roedd yn rhwystredig iawn i beidio â gallu lawrlwytho'n gyflym. Cyn gynted ag yr oedd ceblau ffeibr optig ar gael yn fy ardal, manteisiais ar y cyfle i ddefnyddio'r gwasanaeth newydd.*

*Erbyn hyn, gallaf lawrlwytho fideos o'r Cwmwl a'r rhyngrwyd, eu golygu ac wedyn eu lanlwytho yn hwylus iawn, a dw i'n llwyddo i greu cynnwys mwy diddorol sy'n cael mwy o ymateb o lawer ar fy sianeli cyfryngau cymdeithasol. Mae'n llawer haws i mi gynnal fy musnes o gartref diolch i'r gwasanaeth hwn.'*

*Sian Sykes, Perchennog cwmni Psyched Paddleboarding*

**DIWEDD Y PAPUR**

# TUDALEN WAG

# TUDALEN WAG